

RhDADB: Carfannau 3 a 4
Hydref 2018 – Mehefin 2019



GwE:
Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid

Carfannau 3 a 4
Hydref 2018 – Mehefin 2019

Grŵp Targed:

- Cefnogi ac ymestyn arweinwyr mewn ysgolion Uwchradd, Cynradd ac ysgolion Arbennig ar draws Gogledd Cymru.
- *Y rhai sy'n anelu at y rôl gadarnhaol (Pennaeth), er nad oes ganddynt eto gyfrifoldeb ffurfiol am y rôl (Matrics Cerrig Milltir LIC, 2015).*

*Yn unigol, cyn lleied;
Gyda'n gilydd, cymaint mwy.*
Helen Keller

Gwybodaeth a Ffurflen Gais

Safonau arweinyddiaeth newydd

O fis Medi 2018 ymlaen, bydd Safonau Arweinyddiaeth newydd LIC yn statudol ar gyfer ysgolion. Byddwn yn mynd i'r afael â'r safonau hyn gyda'n gilydd gydag egwyddorion sylfaenol arweinyddiaeth a theori ac arferion rheoli effeithiol. Bydd Model Dysgu LIC (MDP) a ddangosir yma yn rhan allweddol o'r RhDADB.



Bydd y rhaglen hon yn para blwyddyn academiaidd, a bydd tasgau i'w cwblhau rhwng pob sesiwn. Bydd pob cyfranogwr yn arwain prosiect ysgol sy'n gorfod dangos effaith a gwelliant mewn safonau dysgu, ymddygiad neu bresenoldeb.

Mae chwe diwrnod wyneb i wyneb, yn ogystal ag un diwrnod a leolir mewn ysgol, yn cysgodi pennaeth yr ysgol.

Bydd diwrnodau datblygu yn cynnwys:

- Deallusrwydd Emosiynol
- Gwerthoedd, credoau, gweledigaeth a diwylliant yr ysgol
- Cyfeiriad Strategol; cynllunio gweithredol
- Arwain dysgu ac addysgu
- Hyfforddi a mentora
- Arddulliau arweinyddiaeth ac ymddygiadau
- Arwain a rheoli timau effeithiol
- Arwain a rheoli newid
- Eich atebolrwydd eich hun, ac eraill
- Effaith a dylanwad
- Adborth a sgysiau heriol

Datblygiad personol: *Insights Discovery*

Bydd pob cynrychiolydd yn cwblhau *Insights Discovery Personal Profile*. Dadansoddiad profil ymddygiadol yw hwn a gefnogir gan ddiwrnod llawn o hyfforddiant a datblygiad wrth ei gymhwyso gyda chydweithwyr yn ôl yn yr ysgol. Mae'r diwrnod hwn (diwrnod 2) yn cynnwys:

- Effeithiolrwydd personol
- Gweithio mewn tîm
- Arweinyddiaeth ddewr ac ystyriol
- Newid

Mae cydweithio a chyfathrebu'n arfau hanfodol ar gyfer y timau gorau. Mae deall eich arddull personol eich hun a chydhabod rhai pobl eraill yn golygu y gall perthnasau yn y gweithle fod yn gynhyrchol, yn hytrach na dinistriol.

Pwy yw'r gynulleidfa darged?

Mae'r rhaglen ddatblygu hon ar gyfer y rheiny sy'n uwch arweinwyr ar hyn o bryd yn rhanbarth y gogledd. Er mwyn cael eu derbyn ar y rhaglen hon, buasem yn awgrymu'r meini prawf a ganlyn i uwch athrawon sydd:

- yn 'ymarferwyr da, yn gyson', o leiaf
- wedi cael amrywiaeth o gyfrifoldebau ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth
- naill ai'n Ddirprwy Bennaeth, yn Bennaeth Cynorthwyol neu'n uwch arweinydd ac yn aelod o UDA yr ysgol
- (neu wedi cael secondiad i'r UDA/yn uwch arweinydd cyswllt)
- wedi arwain yn effeithiol ar flaenoriaeth allweddol yng nghynllun datblygu'r ysgol
- â chefnogaeth lawn Pennaeth yr ysgol

Bydd y rhaglen hon yn mabwysiadu dull trawsygyfnod a fydd yn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ddeall, gwerthfawrogi, rhannu a chydweithio gyda chydweithwyr ar draws rhanbarth y gogledd Cymru.

Bydd dau grŵp ym mhob iaith; dau grŵp cyfrwng Cymraeg a dau grŵp cyfrwng Saesneg.

Bydd pob grŵp yn cynnwys 16 o ymarferwyr.

Pryd a ble?

Cynhelir dwy garfan ar yr un pryd yn y ddwy iaith. Dau grŵp cyfrwng Cymraeg a dau grŵp cyfrwng Saesneg. Bydd adnoddau'r rhaglen ar gael yn ddwyieithog.

Carfan 3:

- | | |
|------------|---|
| Diwrnod 1: | 15 Hydref 2018 |
| Diwrnod 2: | Cym: 12 Tachwedd / Saes: 14 Tachwedd 2018 |
| Diwrnod 3: | 24 Ionawr 2019 |
| Diwrnod 4: | 14 Mawrth 2019 |
| Diwrnod 5: | Ymweliadau ysgol i ysgol/arsylwadau cymheiriaid |
| Diwrnod 6: | 4 Ebrill 2019 |
| Diwrnod 7: | 26 Mehefin 2019 |

Carfan 4:

- | | |
|------------|---|
| Diwrnod 1: | 15 Hydref 2018 |
| Diwrnod 2: | Cym: 13 Tachwedd / Saes: 15 Tachwedd 2018 |
| Diwrnod 3: | 23 Ionawr 2019 |
| Diwrnod 4: | 14 Mawrth 2019 |
| Diwrnod 5: | Ymweliadau ysgol i ysgol/arsylwadau cymheiriaid |
| Diwrnod 6: | 5 Ebrill 2019 |
| Diwrnod 7: | 26 Mehefin 2019 |

Bydd pob diwrnod yn dechrau am 9:00yb ac yn gorffen am 4:00yh. Mae'n rhaid i'r aelodau fynychu'r dyddiau i gyd. Bydd lleoliadau ar draws y rhanbarth.

Costau/cyllid:

Dim cost i'r dyddiau datblygu (GwE yn ariannu)

- Bydd yr ysgol yn talu costau llanw.
- Bydd yr aelodau yn talu eu costau teithio ac ymchwil.
- Efallai y gall ysgolion ddefnyddio eu grantiau GGA/GDD os yw'r prosiect ysgol yn ymwneud â blaenoriaeth o fewn eu 'cynlluniau'.
- Disgwylir i'r aelodau fynychu pob diwrnod datblygu.



Darpar Bennaeth / uwch arweinydd

'Mae gan bob rôl arweinyddiaeth rai sgiliau a nodweddion yn gyffredin, yn arbennig gweithio gydag eraill a dylanwadu ar eraill i wella profiad dysgu pob dysgwr. Fodd bynnag, ar gamau gwahanol o'r daith arweinyddiaeth, bydd gan yr unigolyn set wahanol o anghenion.....'

Uwch arweinwyr : Arweinwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am agwedd ar arweinyddiaeth ar draws sefydliad. Mae hyn yn cynnwys uwch arweinwyr cwricwlwm/ bugeiliol ac aelodau o uwch dimau arwain, fel dirprwy benaethiaid neu benaethiaid cynorthwyol.

Darpar benaethiaid : Y rhai sy'n anelu at y rôl gadarnhaol (Pennaeth), er nad oes ganddynt eto gyfrifoldeb ffurfiol am y rôl.

Y gweithgareddau awgrymedig sy'n gysylltiedig a'r cerrig milltir ar gyfer darpar benaethiaid (sy'n cyd-fynd â'r Safonau Arweinyddiaeth) yw;

Maes allweddol 1	Creu cyfeiriad strategol	Archwilio diben moesol arweinyddiaeth ysgol gyfan gan ddefnyddio pob un o 6 maes y safonau arweinyddiaeth. Ystyried rhesymau personol dros ddymuno bod yn bennaeth. Bod yn barod i fynegi'r rhesymau hyn i bobl eraill. Myfyrio ar brofiad hyd yma gan ddefnyddio tystiolaeth o weithgareddau datblygu arweinyddiaeth blaenorol.
Maes allweddol 2	Arwain dysgu ac addysgu.	Myfyrio ar eich arferion addysgeg eich hun. Bod yn barod i fynegi sail resymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'ch arferion. Ystyried sut y mae dull ysgol gyfan o arferion dosbarth rhagorol yn cael ei sicrhau a'i gynnal. Parhau i ddatblygu sgiliau dadansoddi data arsylwadau dosbarth a chynllunio ar gyfer gwelliant.
Maes allweddol 3	Datblygu a gweithio gydag eraill	Nodi nodweddion timau effeithiol o fewn yr ysgol. Annog cydweithio a mentora arweinwyr i sicrhau bod yr ethos cyson a chadarnhaol o weithio mewn tîm i'w weld ar draws yr ysgol. Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth wasgaredig a datblygu unigolion gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer darpar arweinwyr. Modelu ymddygiadau effeithiol wrth arwain eraill.
Maes allweddol 4	Rheoli'r ysgol	Datblygu ymwybyddiaeth o gynllunio ariannol tymor byr a thymor hir. Datblygu ymwybyddiaeth o faterion personol gan gynnwys apwyntiadau. Gallu mynegi'r cysylltiadau rhwng cynllunio ariannol a chynllunio staff mewn perthynas a gweithredu'r cynllun datblygu ysgol y cytunwyd arno.
Maes allweddol 5	Diogelu atebolrwydd	Ystyried defnyddio profiad personol hyd yma i nodi pa ffactorau sy'n cyfrannu at strwythur atebolrwydd effeithiol. Ystyried rôl y pennaeth a'r corff llywodraethu wrth ddiogelu atebolrwydd. Bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau y mae cyrff allanol yn eu defnyddio i ddiogelu atebolrwydd. Ystyried sut y mae mesurau atebolrwydd mewnol yn gysylltiedig a'r rhain.
Maes allweddol 6	Cryfhau'r ffocws cymunedol	Ystyried sut y mae perthnasau gyda'r gymuned leol a'r cymunedau ehangach yn cael eu datblygu a'u cynnal. Archwilio sut y trosglwyddir gwybodaeth am y gymuned leol a'r gymuned ehangach i gydweithwyr. Ystyried sut y mae cyflawniadau'r ysgol yn cael eu rhannu gyda'r gymuned leol a'r gymuned ehangach a sut y gellid cryfhau'r rhain. Nodi'r asiantaethau allweddol y tu hwnt i'r ysgol sy'n cyfrannu at orchfygu anfanteision a rhwystrau dysgu. Dysgu eich hunain am eu gwaith a'u harferion.

Ffurflen Gais RhDADB - Carfannau 3 a 4

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth i Ddarpar Benaethiaid (RhDADB)
Hydref 2018 - Mehefin 2019

Cais ar gyfer Carfan 3 neu Garfan 4 (dilêwch y garfan nad ydych yn dymuno cael eich ystyried amdani os gwelwch yn dda)		
Enw'r ymgeisydd:		
Ysgol a rhif ffôn yr ymgeisydd:		
Cyfeiriad e-bost yr ymgeisydd:		
Rhif ffôn symudol yr ymgeisydd:		
Nifer o flynyddoedd yn addysgu:		
Rhaglenni arweinyddiaeth blaenorol a gyflawnwyd - dyddiadau. Enwch y darparwr:		
Rôl/cyfrifoldebau presennol:		
Pam eich bod yn dymuno cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu arweinyddiaeth hon? (250 gair)		
Llofnod yr ymgeisydd (electronig):		Dyddiad:
Enw mentor arweinyddiaeth yr ysgol:		
Enw Pennaeth yr ysgol:		
Llofnod Pennaeth, neu Ddirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol:		Dyddiad:
Dychwelwch i:	MorganCordiner@gwegogledd.cymru	
Unrhyw ofynion deietegol arbennig? Unrhyw anableddau rydych yn dymuno dweud wrthym amdanynt?		
Erbyn:	Canol dydd, 20 Gorffennaf 2018	
Mae uwch dim rheoli a llywodraethwyr yr ysgol hon yn cefnogi'r cais hwn yn llawn ac yn ymrwymo i fynd ati'n weithredol i geisio'r cyfleoedd angenrheidiol a fydd yn galluogi'r ymgeisydd i gyflawni'r tasgau dan sylw. Bydd yr ysgol yn penodi aelod o'r UDA fel mentor i'r ymgeisydd yn yr ysgol. Disgwylir i'r ymgeisydd fynychu pob diwrnod datblygu.		